# Gwyliau Aelodau'r Cynulliad

*05/07/2012*

Annwyl

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 21 Mehefin, pan wnaethoch ofyn am wybodaeth am wyliau Aelodau'r Cynulliad.

Mae'n ddrwg gennyf, ond nid ydym yn cadw'r wybodaeth y gwnaethoch ofyn amdani; yn wir, nid yw'r wybodaeth y mae gennych ddiddordeb ynddi yn bodoli ar hyn o bryd. Y rheswm am hyn yw'r sail gyfreithiol i'r gwaith y mae Aelodau'r Cynulliad a chynrychiolwyr tebyg, fel Aelodau Seneddol, yn ei wneud.

Ar ôl i Aelodau gael eu hethol i swydd Aelod Cynulliad, bydd ganddynt yr hawl i gymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad. Ni chânt eu cyflogi gan y Cynulliad ac nid oes ganddynt gytundebau cyflogaeth. Felly, nid oes dogfen sy'n pennu'r diwrnodau, na nifer y diwrnodau, y mae'n rhaid iddynt ymgymryd â'u gwaith fel Aelodau'r Cynulliad. Wrth gwrs, nid mynd i gyfarfodydd ffurfiol yn y Cynulliad yw'r unig agwedd ar y gwaith hwnnw. Mae hefyd yn cynnwys gweithio yn yr etholaethau a'r rhanbarthau neu ymgymryd â gwaith perthnasol.

Er bod adegau o'r flwyddyn pan fydd y Cynulliad ar doriad, pan na fydd cyfarfodydd ffurfiol yn cael eu cynnal, nid yw hyn yn golygu bod Aelodau'r Cynulliad ar wyliau. Bydd rhan helaeth o'r toriad yn cynnwys ymgymryd â gwaith etholaethol a rhanbarthol. Os bydd Aelod yn penderfynu neilltuo cyfnod o amser yn ystod toriad ar gyfer gwyliau ffurfiol, mater i'r Aelod unigol dan sylw yw hynny, ac nid oes rhaid iddo ef, neu iddi hi, hysbysu'r Cynulliad amdano. Felly, nid yw Comisiwn y Cynulliad yn cadw cofnodion ynghylch gwyliau Aelodau'r Cynulliad.

Fel y bu ichi awgrymu yn eich llythyr, argymhellodd y Panel Adolygu Annibynnol (a gadeiriwyd gan Syr Roger Jones), yn ei adroddiad 'Yn Gywir i Gymru', a gyhoeddwyd yn 2009 (mae copi wedi'i amgáu), y dylai grwpiau'r pleidiau (hynny yw, nid y Cynulliad) gofnodi gwyliau Aelodau'r Cynulliad.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 8215
E-bost/Email:Alison.Rutherford@cymru.gov.uk

Roedd hwn yn un o 108 argymhelliad, a oedd yn cynnwys argymhelliad i sefydlu Bwrdd Taliadau annibynnol i sicrhau bod gan Aelodau'r Cynulliad adnoddau digonol ac addas i ymgymryd â'u gwaith hanfodol o gynrychioli pobl Cymru, dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, a deddfu ar gyfer Cymru.

Sefydlwyd y Bwrdd Taliadau ym mis Medi 2010 ac, fel rhan o'i adolygiad cyntaf, ystyriodd bob un o'r argymhellion yn adroddiad 'Yn Gywir i Gymru'. Wrth adolygu'r argymhelliad y dylai grwpiau'r pleidiau gofnodi gwyliau Aelodau'r Cynulliad, nododd y Bwrdd Taliadau mai mater i grwpiau'r pleidiau oedd yr argymhelliad ynghylch cofnodi gwyliau, ac unrhyw fater yn ymwneud â hawl i wyliau, a'u bod felly y tu hwnt i gylch gwaith y Bwrdd. Mae hawl Aelodau'r Cynulliad i wyliau, a'r trefniadau perthnasol, yn parhau yn fater i Aelodau'r Cynulliad a grwpiau'r pleidiau yn unig ei drafod a phenderfynu arno.

Ceir rhagor o wybodaeth am y Bwrdd Taliadau, gan gynnwys copïau o'i adroddiadau a chofnodion ei gyfarfodydd, ar wefan y Cynulliad: http://www.assemblywales.org/cy/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-allow-pay-pensions/remuneration_board.htm.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm. Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Alison Rutherford**
**Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/help/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:


Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF



**Alison Rutherford**
**Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**